# Mewnblaniad chondrocyte o'r un unigolyn ar gyfer trin diffygion cartilag articwlar symptomatig y pen-glin

4 Hydref 2017

Mae mewnblaniad chondrocyte o'r un unigolyn (ACI) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer diffygion cartilag articwlar symptomatig y pen-glin mewn pobl os yw'r canlynol yn gymwys:

- nid ydynt wedi cael llawdriniaeth pen-glin flaenorol i drwsio diffygion cartilag articwlar
- dim ond ychydig o niwed pen-glin o osteoarthritis sydd
- mae'r diffyg dros 2 $cm^2$
- caiff y driniaeth ei chynnal mewn canolfan arbenigol.

Mae cartilag articwlar yn cwmpasu ymylon yr esgyrn mewn cymal (megis y pen-glin) ac yn eu rhwystro rhag rhwbio yn erbyn ei gilydd pan fyddwch yn symud. Gall niwed cartilag ddigwydd drwy anaf uniongyrchol, yn aml drwy chwaraeon, neu drwy draul. Nod ACI yw gwneud i gymal y pen-glin weithio'n normal drwy roi cartilag iach sydd wedi tyfu o gelloedd y claf ei hun yn lle'r cartilag sydd wedi'i niweidio.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- ARMA, 0203 856 1978
- Arthritis Action, 0800 652 3188
- Gofal Arthritis, 0808 800 4050

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2667-1

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights